OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 333 (Cy.51)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Edlogan Way, Cwmbrân, Torfaen) (Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *07 Chwefror 2011*

*Yn dod i rym* *14 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd i'r Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno;

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 **(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn **(2)**:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Edlogan Way, Cwmbrân, Torfaen) (Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 14 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A4042 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darn o'r gefnffordd.

**4**. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5**. Bydd y Gorchymyn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 07 Chwefror 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gogledd a'r gerbytffordd tua'r de y gefnffordd o bwynt 68 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt cylchfan Cwmbrân i bwynt 35 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt cylchfan Turnpike, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol cylchfan Edlogan Way.